



---

**Fforwm Rhanbarthol De Ddwyrain Cymru**

---

**Dyddiad:** 05 Tachwedd 2020

---

**Amser:** 10:00 – 12:30

---

**Lleoliad:** Microsoft Teams

---

**Yn bresennol**

Adam Keen, Rheolwr Gyfarwyddwr NAT Travel (AK)  
Brian Morgan, Prifysgol Metropolitan Caerdydd (BM)  
Christian Schmidt, Cyngor Sir Fynwy (CS)  
Clare Cameron, Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (CC)  
Clive Campbell, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (CC1)  
David Beer, Transport Focus (DB)  
Gareth Stevens, Cyfarwyddwr Gweithrediadau a Masnachol, Bws Caerdydd (GS)  
Gemma Hayne, Tîm Cyflogadwyedd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (GH)  
Jason Dixon, Arweinydd Tîm Polisi Trafnidiaeth, Cyngor Caerdydd (JD)  
John Gibson, Cyngor Caerdydd (JG)  
Kelly Young, Prifysgol Metropolitan Caerdydd (KY)  
Kevin Mulcahy, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (KM)  
Kevin Sales, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (KS)  
Kyle Phillips, Cyngor Bro Morgannwg (KP)  
Leanne Waring, Rheolwr Datblygu Busnes, Coleg Caerdydd a'r Fro (LW)  
Michelle Mitchell, Arweinydd Grŵp Trafnidiaeth Integredig, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen (MM)  
Owen Williams, First Group (OW)  
Paul Carter, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerdydd (PC)  
Rachel Mason-Jones, Prifysgol Metropolitan Caerdydd (RMJ)  
Rebecca Smith, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (RS)  
Rhys Roberts, Coleg y Cymoedd (RR)  
Richard Cope, Cyngor Sir Fynwy a Chyngor Dinas Casnewydd (RC)  
Robert Gravelle, Gwasanaethau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru (RG)  
Tracey Messner, Network Rail (TM)  
Vera Mdrecaj, Prifysgol Metropolitan Caerdydd (VM)

**Yn bresennol o TrC**

Andrew Gainsbury, Rheolwr Stoc Cerbydau (AG)  
Arron Bevan-John, Swyddog Ymgysylltu â'r Gymuned – y Canolbarth a'r Gorllewin (ABJ)  
Carolyn Hodrien, Swyddog Ymgysylltu â'r Gymuned – y Canolbarth a'r Gogledd (CH)  
Ceri Taylor, Rheolwr Rhanddeiliaid – De Ddwyrain Cymru (CT - Cadeirydd)  
Dafydd Williams, Rheolwr Perfformiad Rheilffyrdd (DW)  
Huw Morgan, Pennaeth Trafnidiaeth Integredig (HM)  
Geraint Morgan, Rheolwr Rheilffyrdd Cymunedol – De (GM)  
Gethin Jones, Rheolwr Cymorth Busnes (GJ)  
Helen Dale, Swyddog Ymgysylltu â'r Gymuned – De Ddwyrain Cymru (HD)  
James Price, Prif Weithredwr (JP)  
Kelsey Barcenilla, Swyddog Ymgysylltu â'r Gymuned – De Ddwyrain Cymru (KB)  
Lewis Brencher, Cyfarwyddwr Cyfathrebu (LB)  
Dywedodd Lois Park, Pennaeth Ymgysylltu â'r Gymuned a Rhanddeiliaid (LP)  
Louis Mertens, Swyddog Ymgysylltu â'r Gymuned – Cymru a'r Gororau (LM)  
Lowri Joyce, Rheolwr Rhanddeiliaid, y Canolbarth a'r Gogledd (LJ)  
Mike Harvey, Rheolwr Prosiect (MH)  
Nichole Sarra, Rheolwr Rhanddeiliaid – Cymru a'r Gororau (NS)  
Paul Chase, Rheolwr Dadansoddi Trafnidiaeth Strategol (PC)

## Ymddiheuriadau

Gwyn Smith, Rheolwr Ardal De Ddwyrain Cymru, Sustrans  
Charlie Nelson, Rheolwr Cludiant, CBS Rhondda Cynon Taf  
Kyriaki Flouri, Prifysgol Metropolitan Caerdydd  
Julia Fallon, Prifysgol Metropolitan Caerdydd  
Selyf Morgan, Prifysgol Metropolitan Caerdydd  
Michelle Roles, TransportFocus  
Hugh Evans, Pennaeth Rheilffyrdd Cymunedol, Trafnidiaeth Cymru  
Heather Myers, Siambr Fasnach De Cymru  
Paul Jones, Pennaeth Gwasanaethau Dinas, Cyngor Casnewydd  
Jane Reakes Davies, Rheolwr Gyfarwyddwr Dros Dro, First Cymru  
Derek Jones, Cynghorydd Arbennig, Prifysgol Caerdydd  
Paul Dyer, Rheolwr Gyfarwyddwr, Prif Swyddog Gweithredol Bws Caerdydd  
Natalie Curtis, Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol De-ddwyrain Cymru, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr  
Nicola Somerville, Aelod o Dasglu, Tasglu'r Cymoedd  
Sian Rees, Deon Cysylltiol, Menter - Ysgol Reoli Caerdydd, Prifysgol Metropolitan Caerdydd  
Andy Johns, Dirprwy Bennaeth, Coleg y Cymoedd  
Adrian Field, ForCardiff  
Sam Hadley, Network Rail  
Roger Waters, CBS Rhondda Cynon Taf  
Gemma Leilott, CTA De Ddwyrain Cymru, De Cymru  
Heather Anstey, Siambrau De Cymru  
Nigel Winter, Rheolwr Gyfarwyddwr, De Cymru, Stagecoach  
Steve Whitley, Gwasanaethau Rheilffyrdd TrC  
Katie Powis, Rheolwr Rhanddeiliaid, Trafnidiaeth Cymru  
Alexia Course, Cyfarwyddwr Gweithrediadau Rheilffyrdd, Trafnidiaeth Cymru

Sylwer: Lluniwyd y cofnodion canlynol gan yr ysgrifenyddiaeth ar gyfer y fforwm hwn, sef Kelsey Barcenilla, Swyddog Ymgysylltu â'r Gymuned.

Ceir crynodeb isod o'r cyflwyniadau a'r pynciau a drafodwyd/cwestiynau a godwyd – ac ni fwriedir iddynt fod yn gofnod air am air o'r sesiwn.

Eitem rhif	Cofnodion	Cam gweithredu
1.	<b>Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau</b> Croesawodd CT bawb a oedd yn bresennol a chynhaliwyd cyflwyniadau. Nodwyd hefyd y rheolau cadw tŷ cyffredinol a'r canllawiau technegol.  Cyflwynodd KB a HD drosolwg byr o'r rolau ymgysylltu â'r gymuned newydd ar gyfer rhanbarth De Ddwyrain Cymru.	
2.	<b>Yr amserlen a'r canllawiau teithio diweddaraf – Dafydd Williams (DW)</b> Trafnidiaeth Cymru  Cyflwynodd DW y newidiadau parhaus i'r cyfyngiadau teithio yng Nghymru oherwydd effaith Covid-19 a'r newidiadau a ddeilliodd o hynny i amserlenni rheilffyrdd. Tynnwyd sylw at ystod o ddiweddariadau, gan gynnwys effaith y cyfyngiadau atal	

	<p>byr, y dylanwadau ar newidiadau i amserlenni, a'r amrywiad yn y galw am wasanaethau o'i gymharu â'r un pryd yn 2019. Bu adborth gan randdeiliaid yn allweddol i ddarparu dull newydd a hyblyg o ddarparu gwasanaeth o'r ansawdd gorau, yn enwedig gan ysgolion a cholegau. Cafodd y diweddariadau i'r amserlen ar gyfer 2021 eu cyflwyno hefyd.</p> <p>Holodd DB pa bryd y byddai sianeli cyfathrebu Trafnidiaeth Cymru yn cael eu diweddarau i roi cyngor i'r cyhoedd yn dilyn cyhoeddiad y Prif Weinidog am fesurau ar ôl y cyfnod atal byr. <b>(SGWRS)</b> Cadarnhaodd CT fod cynnwys y wefan yn cael ei ddiweddarau ac y byddai rhagor o ddiweddariadau'n cael eu darparu yn ystod eitem 7 ar yr agenda.</p> <p>Cwestiynodd CS y map y cyfeiriwyd ato yn y cyflwyniad, gan nad oedd yn cynnwys y Fenni / Cas-gwent fel rhan o'r Metro. Ychwanegodd CT y byddai hyn yn cael ei adrodd yn ôl i gydweithwyr.</p>	
<p><b>3.</b></p>	<p><b>Cerbydau – Andrew Gainsbury (AG)</b> Trafnidiaeth Cymru</p> <p>Rhoddodd AG gyflwyniad manwl ar gerbydau, gyda'r wybodaeth ddiweddaraf am y rôl mae Covid-19 wedi'i chwarae o ran heriau nad oedd modd eu rhagweld yn y gadwyn gyflenwi ac oedi gyda'r fflyd newydd, ond cadarnhaodd, fodd bynnag, fod y rhaglen gwella'r fflyd wedi parhau. Trafododd AG sut mae hyfforddiant criwiau bellach wedi aildechrau, ar gapasiti cyfyngedig. Rhoddodd AG hefyd ddiweddariad cynhwysfawr ar y mathau o fflydoedd a'r cynnydd sy'n cael ei wneud gyda datblygiadau ym mhob rhanbarth.</p> <p>Holodd CS a oedd digon o gerbydau i redeg y gwasanaeth bob awr a addawyd i Gas-gwent a Cheltenham. <b>(SGWRS)</b> Ymatebodd AG drwy nodi, gyda'r heriau presennol yn nepo Treganna, ynghyd â'r oedi wrth roi'r fflydoedd sy'n cael eu rhaeadru ar waith, nad oes unrhyw bosibilrwydd ar hyn o bryd o gynyddu gwasanaeth Cheltenham o fewn y flwyddyn nesaf.</p> <p>Cododd DB y mater y byddai mesur yn her allweddol o ran fflyd newydd. Holodd sut yr oedd cynlluniau'n dod yn eu blaen ac a oedd yn debygol fod unrhyw broblemau a fyddai'n effeithio ar y ddarpariaeth a'r cyflwyno arfaethedig. <b>(SGWRS)</b></p> <p>Holodd GM pa fflyd fyddai'n cael ei defnyddio ar linell Coryton. <b>(SGWRS)</b></p>	<p><b>AG i ddarparu diweddariad i DB.</b></p> <p><b>AG i ddarparu ymateb i GM.</b></p>
<p><b>4.</b></p>	<p><b>Diweddariad ar Ddyfodol Contract Cymru a'r Gororau – James Price (JP)</b> Trafnidiaeth Cymru</p> <p>Rhoddodd JP ddiweddariad ar ddyfodol y contract rheilffyrdd yng Nghymru a'i ganlyniadau. Trafododd JP effaith ariannol COVID ar TrC a'r effaith a gafodd hyn ar y contract. Penderfynwyd rhoi sicrwydd i'r prosiect ac i weithwyr TrC yn y</p>	

	<p>tymor canolog. Trafododd JP y model gweithredu blaenorol a newydd hefyd fel rhan o'r contract.</p> <p>Holodd CS pwy sydd nawr angen cytuno ar newidiadau a allai beri risg o ran referniw, o ystyried mai gan Lywodraeth Cymru yr oedd y risg referniw i gyd erbyn hyn. <b>(SGWRS)</b> Cynigiodd JP y byddai Llywodraeth Cymru, gobeithio, yn darparu amlen gyllidebol i TrC, lle bydd penderfyniadau'n cael eu gwneud gennym ni. Bydd gwleidyddion yn parhau i gael eu hysbysu a bydd ganddynt ddarlun clir o benderfyniadau. Bydd y fforwm Rhanddeiliaid, ymysg paneli eraill, hefyd yn gyfranwyr allweddol at benderfyniadau yn y dyfodol.</p>	
<p>5.</p>	<p><b>Cyfnewidfa Caerdydd Canolog – Mike Harvey (MH) a Huw Morgan (HM)</b> Gwasanaethau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru</p> <p>Cyflwynodd MH brosiect ffitio allan yr orsaf fysiau, gyda HW yn rhoi mewnbwn ar yr ystyriaethau gweithredol. Dangosodd MH yr adeilad cyfnewidfa arfaethedig a'r broses ar gyfer trosglwyddo gyda TrC i fwrw ymlaen â'r penderfyniadau gweithredol. Ymgynghorwyd â rhanddeiliaid allweddol yn ystod y broses ar yr elfen ddylunio a byddant yn parhau i wneud hynny nes trosglwyddo ym mis Hydref 2022.</p> <p>Trafododd HW fod yr asesiad manwerthu a darpar denantiaid/incwm wedi'u cwblhau. Mae TrC hefyd wedi cwblhau adolygiad diogelwch gweithredol, cynllun cynaliadwyedd gweithredol a hirdymor. Sefydlwyd grwpiau llywio yn fewnol i drafod datblygiadau.</p> <p>Mynegodd AK bryderon ynghylch graddfa fach yr orsaf o'i chymharu â nifer y gwasanaethau a oedd yn cael eu cynnig. Holodd pa wasanaethau oedd i fod i ddefnyddio'r gyfnewidfa a pha gynllun cyfathrebu oedd ar waith i sicrhau bod teithwyr yn cyrraedd eu lleoliad gadael cywir. <b>(SGWRS)</b> Cadarnhaodd HW fod y cynlluniau'n llai na'r orsaf wreiddiol arfaethedig, ond y bwriad yw i'r Sgwâr Canolog ddod yn ardal gyfnewid, gydag arosfannau ychwanegol ar Heol Santes Fair a Woodgate.</p> <p>Roedd RG yn falch o'r ymgynghoriadau a hwyluswyd eisoes a gofynnodd am fwy o wybodaeth am hygyrchedd a chynhwysiant. <b>(SGWRS)</b></p> <p>Gofynnodd DB sut roedd safbwyntiau, profiad ac arferion gorau teithwyr yn cael eu cynnwys yn y broses ddylunio – ar gyfer defnydd ymarferol ac ar gyfer galluoedd gwybodaeth aml-foddol? <b>(SGWRS)</b> Cadarnhaodd HM y bu ymgynghoriad blaenorol a gwblhawyd gan Gyngor Caerdydd a phwysigrwyd ymgysylltu â gwahanol sefydliadau a chwsmeriaid yn ystod y cam nesaf. Bydd HM yn parhau i weithio'n agos gyda'r tîm Rhanddeiliaid ar gyfathrebu ac adborth gan rhanddeiliaid.</p>	<p><b>CT i rannu manylion HM ac MH gyda RC.</b></p>

	<p>Holodd GM a fyddai'r orsaf fysiau newydd, ynghyd â gorsaf Caerdydd Canolog yn darparu gwybodaeth amser real am drenau. <b>(SGWRS)</b> Cadarnhaodd HM y byddai trenau amser real yn gadael ar sgriniau yn yr orsaf fysiau a byddai angen trafodaeth bellach ar sut y gall hyn gysylltu â'r orsaf Ganolog.</p> <p>Holodd CS a oedd gan TrC strategaeth dyrannu bae. <b>(SGWRS)</b> Ymatebodd HM drwy ddweud bod TrC yn anelu at gael cymysgedd o wasanaethau o'r orsaf fysiau a phwysigrwydd defnyddio stondinau mor effeithlon a dwys â phosibl. I gyflawni hyn, bydd TrC yn cymysgu gwasanaethau a gweithredwyr, mewn ffordd sy'n glir i deithwyr. Cadarnhaodd HM ei bod yn rhy gynnar i gadarnhau'r gwaith o ddyrannu gwasanaethau, oherwydd yr amgylchedd gweithredu presennol, ond bydd TrC yn parhau i weithio gyda chwsmeriaid a gweithredwyr i gael y cydbwysedd cywir.</p>	
<p>6.</p>	<p><b>Strategaeth Parcio Ceir – Paul Chase (PC)</b> Trafnidiaeth Cymru</p> <p>Cyflwynodd PC y strategaeth parcio a theithio ar gyfer Metro De Cymru, gan drafod y gweithdai blaenorol a gynhaliwyd yn 2019 gyda Rhanddeiliaid a helpodd i siapio'r strategaeth. Cadarnhaodd PC fod y strategaeth ar ffurf drafft a bod TrC yn aros am ragor o wybodaeth am Strategaeth Trafnidiaeth Cymru yn gyffredinol, i sicrhau eu bod yn cyd-fynd. Roedd y cyflwyniad hefyd yn sôn am yr angen am y strategaeth, yr atebion sy'n cyd-fynd â'i gilydd, y lleoliadau gorau a sut y dylid cyflwyno cynlluniau.</p> <p>Gofynnodd DB pa fesurau lliniaru a mesur sydd ar waith ar gyfer colli manau parcio mewn gorsafoedd presennol, yn enwedig Radur a Threfforest. <b>(SGWRS)</b> Atebodd KB gyda'r wybodaeth ddiweddaraf am y defnydd o faes parcio Gogledd Radur a'r capasiti presennol yn y maes parcio gorlif. Wedi darparu manylion KB a CT os oes gan DB ymholiadau pellach.</p>	
<p>7.</p>	<p><b>Ailadeiladu hyder teithwyr mewn teithio cyhoeddus ar ôl COVID-19 – Lewis Brencher (LB)</b> Trafnidiaeth Cymru</p> <p>Rhoddodd LB gyflwyniad byr, yn trafod pwysigrwydd adborth gan ein rhanddeiliaid i gefnogi'r gwaith o ail-adeiladu'r galw am drafnidiaeth gyhoeddus ar ôl Covid. Trafododd LB fewnwelediadau 'Gwneud Synnwyr' a arweiniodd ymlaen at drafodaethau gweithdy dan arweiniad y rhanddeiliaid a gymerodd ran. Gofynnwyd i rhanddeiliaid drafod y prif rwystrau i deithwyr sy'n dychwelyd i drafnidiaeth a beth allwn ni ei wneud fel sector i gynyddu'r galw.</p> <p>Mae'r adborth i'r prif rwystrau yn cynnwys; gweithio ar y cyd â grwpiau gwirfoddol, angen i gyfathrebu fod yn glir ar/oddi ar drenau, meithrin hyder teithwyr mewn glanweithdra, tocynnau</p>	<p><b>Bydd adborth gan rhanddeiliaid yn cael ei ddefnyddio i helpu i siapio cynlluniau. Bydd adroddiad adborth ar wahân sy'n casglu'r mewnbwn o'r gweithdy</b></p>

	<p>hyblyg, annog arweinwyr yn Llywodraeth Cymru i fod yn weladwy ar drafnidiaeth a chyfathrebu ynghylch gorlenwi.</p> <p>Mae'r adborth ar y cynnydd yn y galw yn y sector yn cynnwys; cydweithio â rhanddeiliaid sy'n delio â'r cyhoedd, gan weithio gyda chyflogwyr mawr i drafod amseroedd dechrau gwahanol er mwyn lleihau capasiti ar adegau brig, cynlluniau teithio rhanbarthol, cysylltu ag awdurdodau lleol a gwasanaethau bysiau i ddangos diogelwch cyffredinol ar draws Trafnidiaeth a gwybodaeth amser real.</p>	<p><b>penodol hwn a'r sesiynau sy'n cael eu hailadrodd gyda grwpiau rhanddeiliaid eraill ar gael yn gynnar yn 2021 ac yn cael ei rannu mewn fforymau yn y dyfodol.</b></p>
<p><b>8.</b></p>	<p><b>Eitemau'r Fforwm yn y Dyfodol / Unrhyw Fater Arall</b>  Dywedodd CT y byddai TrC yn croesawu awgrymiadau gan aelodau'r fforwm ar gyfer eitemau i'w rhoi ar yr agenda yn y fforwm nesaf ac yng nghyfarfodydd y fforwm yn y dyfodol.</p> <p>Diolchodd CT i aelodau'r fforwm am eu presenoldeb a dymunodd yn dda i bawb.</p> <p>Bwriedir cynnal y fforwm nesaf ym mis Chwefror/Mawrth 2021.</p>	